

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?

Rhagarweiniad

Fel yr amlinellwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i'r pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fis Tachwedd diwethaf, fe symudodd Llywodraeth Cymru yn gyflym yn dilyn canlyniad y refferendwm i greu'r gallu ar draws y Llywodraeth i ymateb i'r heriau ac i archwilio'r cyfleoedd y mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn eu cynnig. Mae ein hymateb isod i argymhellion y Pwyllgor yn dangos ein bod wedi dwysáu ein gwaith o baratoi ar gyfer Brexit, a hynny er gwaethaf y diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU - sefyllfa sy'n ddim cymorth o gwbl ac sy'n peri pryder mawr. Mewn cyferbyniad â hynny, fe wnaethom ni osod ein blaenoriaethau yn glir yn "Diogelu Dyfodol Cymru", a gyhoeddwyd ar y cyd â Phlaid Cymru dros flwyddyn yn ôl, a'r rhain yw ein blaenoriaethau allweddol o hyd.

Rydym wedi dweud bob amser nad oes gan neb fonopoli ar syniadau da ynghylch sut y dylid ymdrin â Brexit, ac rydym yn agored iawn i syniadau newydd. Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor, felly.

Ymatebion manwl i argymhellion y Pwyllgor

[Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ar frys paramedrau tebygol gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys "sefyllfa dim bargaen", ac adrodd ar gynydd o fewn 6 mis.](#)

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n barod yn ystyried beth fyddai goblygiadau senarios gwahanol o ran Brexit, a bydd y gwaith hwn yn parhau wrth iddi ddod yn eglurach beth yw dilysrwydd a thebygolrwydd y gwahanol senarios. Roedd "Diogelu Dyfodol Cymru" yn cynnwys manylion am y gwaith cynnar a wnaed, gan gynnwys dadansoddiad o effaith economaidd bosibl Brexit ar Gymru yn gyffredinol, yn unol â'r data gorau oedd ar gael. Mae'r gwaith hwn wedi'i atgyfnerthu gan y dadansoddiad yn y ddwy ddogfen bolisi a gyhoeddwyd gennym, "Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl" ac "Y Polisi Masnach: Materion Cymru". Fis diwethaf, cyhoeddwyd crynodeb o drafodaethau'r Gweithdai Cynllunio Senarios Ymadael â'r UE (yn cynnwys y sectorau bwyd, pysgodfeydd, ffermio, coedwigaeth a'r amgylchedd) gan Grŵp Bord Gron Rhanddeiliaid Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Datblygwyd pum senario wrth wneud y gwaith hwn, gan gynnwys symud at delerau Sefydliad Masnach y Byd a Chytundeb Masnach Agored â'r UE, a chaiff goblygiadau'r senarios hynny eu pwysu a'u mesur.

Bydd tystiolaeth gadarn yn hanfodol wrth baratoi at y safbwyntiau negodi ar gyfer ymadael â'r UE ac wrth ddatblygu polisiau a rhaglenni wedi hynny. Rydym felly wedi comisiynu gwaith ymchwil amrywiol i gynorthwyo â hyn. Er enghraifft, comisiynwyd Ysgol Fusnes Caerdydd i archwilio sut y byddai nifer o ddewisiadau ar ôl Brexit yn effeithio ar gwmnïau mawr a chanolig eu maint yng Nghymru a pha sectorau fyddai fwyaf bregus. Yn ogystal, comisiynwyd yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, gynt) - "Implications of Brexit for Fishing Opportunities in Wales" a "The implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas and Land Use in Wales".

Wrth feddwl yn benodol am sefyllfa lle na fyddai cytundeb o gwbl, rydym wedi pwysleisio'n barhaus y byddai hynny'n drychinebus i Gymru. Felly, nid ydym yn awyddus i normaleiddio canlyniad trychinebus o'r fath, ond rydym yn cydnabod, pe na bai Llywodraeth y DU yn llwyddo i daro bargaen â'r UE27, fod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod y trefniadau angenrheidiol ar waith mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae holl adrannau Llywodraeth Cymru yn dwysáu eu gwaith o ran y trefniadau gweithredol posibl y gallai fod eu hangen i wneud yn siŵr ein bod yn barod ar gyfer ein hymadawiad â'r UE, yn seiliedig ar wahanol senarios. Ond mae'n bwysig pwysleisio, er hynny, na fydd yn bosibl lleddfu'n llwyr yr effaith y byddai 'dim cytundeb' yn ei chael ar Gymru. Ac mae'n bwysig pwysleisio hefyd mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fydd gwneud y trefniadau angenrheidiol mewn sawl maes allweddol. Byddem yn disgwyl hefyd i Lywodraeth y DU roi digon o adnoddau i ni, Llywodraeth Cymru, i ddelio â'r heriau ychwanegol y byddem yn eu hwynebu petaent yn gadael i'r fath sefyllfa ddigwydd.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol o ran dadansoddi a chyhoeddi yn cael eu diwallu drwy roi blaenoriaeth iddynt yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw ofynion am adnoddau y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol yn cael eu hystyried yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

[Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r naw dadansoddiad sectoraidd a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chanlyniad yr ymchwil sydd i ddod gan Ysgol Fusnes Caerdydd.](#)

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Mae'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud i ddeall problemau a phryderon cwmnïau a busnesau yng Nghymru yn ehangach na'r sectorau â blaenoriaeth, sef yr hyn oedd yn llywio ein polisi economaidd ar y pryd. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi, rydym bellach yn mynd ati mewn modd thematig i ddiffinio'r sectorau.

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'n holl dimau sy'n ymwneud â'r sectorau, er mwyn nodi'r bylchau yn ein data a chael gwell dealltwriaeth o'r darlun ar draws pob un o'r sectorau y bydd ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio arnynt. Cafodd ymchwil ehangach ei gomisiynu ar sail ein gwaith mewnol, ac mae hwnnw wedi disodli'r

dadansoddiad cynnar. Ymhlith yr enghreifftiau mae ymchwil i'r problemau sy'n wynebu busnesau mwy yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd a gyhoeddodd ei adroddiad ar 2 Chwefror 2018.

Rydym wrthi'n llunio manyleb ar gyfer ymchwil i effaith Brexit ar fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, er mwyn deall yn well i ba raddau y mae Brexit yn effeithio ar fusnesau a pha mor barod y maent amdano. Hefyd, yr effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar fentrau bach a chanolig drwy'r gadwyn gyflenwi. Bydd yr ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi hefyd.

Goblygiadau ariannol: Dim un sy'n ymwneud yn benodol â derbyn yr argymhelliad. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ddadansoddiad yn y dyfodol yn cael eu hystyried wrth iddynt gael eu cwblhau.

[Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cyfathrebu â sefydliadau unigol trwy annog mwy o gyrff cynrychioliadol i raeadru gwybodaeth i'r sefydliadau hynny. Rydym hefyd yn argymhell bod sefydliadau unigol yn ymgymryd ag ymgysylltu dwy ffordd ynghylch Brexit o fewn eu strwythurau eu hunain.](#)

Ymateb: Derbyn

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn eithriadol o bwysig inni, ac rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â nhw er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'u blaenoriaethau, eu pryderon a'u manau bregus. Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn cyfleu safbwynt Llywodraeth Cymru ar ystod o faterion yn ymwneud â Brexit a bydd y gweithgarwch hwn yn parhau. Mae'r UE a'r DU wedi cytuno bellach y bydd y DU yn cadw at reoliadau'r UE am gyfnod, sef o'r dyddiad ymadael â'r UE (29 Mawrth 2019) tan 31 Rhagfyr 2020. Disgwylir i'r Cyngor Ewropeaidd gadarnhau hyn ar 22-23 Mawrth. O ystyried y cefndir hwn, nawr yw'r amser cywir i gynnal mwy o drafodaethau â rhanddeiliaid er mwyn eu paratoi ar gyfer y cam hwn a'r newidiadau a'r heriau a fydd yn dod yn ei sgil.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod ein bod yn siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, ffermwyr, undebau llafur, cyrff addysg, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a'r cyhoedd. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn parhau ac yn ehangu wrth inni gychwyn ar y cyfnod allweddol hwn yn y broses Brexit, ac rydym wedi nodi argymhellion y Pwyllgor. Byddwn yn cynyddu'r gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddio cyrff cynrychioliadol yn well a gweithio gyda nhw i rannu gwybodaeth â'u haelodau. Rydym yn datblygu rhaglen ymgysylltu fanylach a fydd yn adeiladu ar ein gweithgarwch blaenorol, gan gynnwys byrddau crwn Gweinidogol a digwyddiadau ymgysylltu eraill, deunyddiau i'w rhannu â chyrrff unigol, rhagor o ymgysylltu drwy fforymau a chyrrff sy'n bodoli'n barod, cymorth uniongyrchol i fusnesau, a defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyrau i roi gwybodaeth i randdeiliaid.

Goblygiadau ariannol: Bydd gwaith pellach o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r cyllidebau sy'n bodoli yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd y gofynion am adnoddau y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol yn cael ei ystyried yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad clir a hygyrch i fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar yr hyn y gallai goblygiadau gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys sefyllfa "dim bargaen", ei olygu i'r sefydliadau hynny. Dylai'r arweiniad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Gan mai dim ond yn ddiweddar y dechreuodd ail gam y negodiadau, rydym o'r farn y byddai rhoi canllawiau i'r fath ystod amrywiol o randdeiliaid yn broses hirfaith a dryslyd ar hyn o bryd, ac y byddai'n debygol o arwain at ansicrwydd pellach. Wrth i'r negodiadau fynd rhagddynt, ac wrth iddi ddod yn gliriach beth fydd dilysrwydd a thebygolrwydd y gwahanol senarios, mae'n ddiamau y byddwn am gynnig canllawiau defnyddiol i'n rhanddeiliaid, yn enwedig i gyrrff y sector cyhoeddus. Bydd angen meddwl yn ofalus cyn darparu canllawiau ar gyfer busnesau a'r trydydd sector, o ystyried pa mor eang yw ystod y buddiannau. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae'r UE a'r DU wedi cytuno bellach y bydd y DU yn cadw at reoliadau'r UE am gyfnod, sef o'r dyddiad ymadael â'r UE (29 Mawrth 2019) tan 31 Rhagfyr 2020. Disgwylir i'r Cyngor Ewropeaidd gadarnhau hyn ar 22-23 Mawrth. Byddwn yn darparu canllawiau i randdeiliaid cyn gynted â phosibl ynglyn â beth fydd hyn yn ei olygu.

Goblygiadau ariannol: Y gwaith o lunio canllawiau i'w wneud gan ddefnyddio'r cyllidebau sydd ar gael ar hyn o bryd dros y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd y gofynion am adnoddau y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol yn cael ei ystyried yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol

Argymhelliad 5: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu.

Ymateb: Derbyn

Nid ydym hyd yma wedi cael unrhyw wybodaeth fanwl oddi wrth Lywodraeth y DU am y gronfa arfaethedig hon, ac rydym felly'n parhau i bwysu am gychwyn trafodaethau manwl ar y modd y gall unrhyw opsiynau ar gyfer disodli cronfeydd strwythurol weithio'n effeithiol yng nghyd-destun datganoli. Mae datblygu economaidd yn gymhwysedd datganoledig, ac nid yw'r posibilrwydd o gronfa a weinyddir yn ganolog yn y DU yn gydnaws â'r dulliau gweithredu gwahanol o ran datblygu economaidd a fabwysiadwyd gan wahanol genhedloedd y DU. Byddai angen i unrhyw gynnig adlewyrchu'r setliad datganoli, parchu'r gwahanol gyd-

destunau polisi a deddfwriaeth, ac adlewyrchu'r trefniadau partneriaeth a llywodraethu ar draws gwahanol wledydd y DU.

Fel yr amlinellwyd yn ein dogfen bolisi "Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit", rydym yn gadarn yn ein gwrthwynebiad i'r syniad o bolisi datblygu rhanbarthol sy'n cael ei lywio'n uniongyrchol o Lundain. Rydym yn galw ar i benderfyniadau am fuddsoddi rhanbarthol barhau i gael eu gwneud yng Nghymru, gan adeiladu ar bron 20 mlynedd o brofiad o reoli polisiâu a chronfeydd rhanbarthol. Rydym wedi egluro hyn yn glir wrth Lywodraeth y DU a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan dynnu ar yr ymatebion cadarnhaol i'n papur polisi ac ar waith y Pwyllgor hwn, fel tystiolaeth o gonsensws cynyddol yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Bydd natur a lefel y trefniadau fydd yn disodli'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn cael effaith arwyddocaol ar sefyllfa gyllidebol gyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhan o'r trafodaethau sydd ar y gweill gyda Llywodraeth y DU.

[Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru - ar y cyd â'r Gweithgor Addysg Uwch - gyhoeddi unrhyw waith a gynhaliwyd hyd yn hyn wrth adolygu ei strategaeth mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch i ystyried goblygiadau Brexit yn y maes hwn.](#)

Ymateb: Derbyn.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Reid i ymchwil ac arloesedd a ariennir gan y llywodraeth y llynedd. Un agwedd ar yr adolygiad yw ystyried goblygiadau Brexit i ymchwil ac arloesedd a gomisiynir gan y Llywodraeth yng Nghymru, a'r pwysau y mae hyn yn ei greu o ran colli cymorth ariannol, colli myfyrwyr i Gymru a'r effaith bosibl o ran bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol a'r gwaith o sicrhau mwy o swyddi sgiliau uchel yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i Adroddiad Reid ac yn bwriadu ei chyhoeddi maes o law.

Goblygiadau ariannol: Unrhyw waith ychwanegol i'w wneud i ddechrau drwy'r cyllidebau sy'n bodoli'n barod.

[Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut mae'n bwriadu gwario'r dyraniadau canlyniadol a ragwelir fydd yn codi o wario arian ar lefel y DU i baratoi ar gyfer Brexit ac yn egluro a fydd y rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer cefnogi gweithgareddau mewn perthynas â Brexit yng Nghymru.](#)

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Nid yw Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn pasbortio'r cyllid canlyniadol sy'n codi o benderfyniadau gwariant a wneir gan Lywodraeth y DU. Mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu sut, law yn llaw â'r grant bloc presennol, y mae unrhyw ddyraniadau ychwanegol a dderbyniwn o ganlyniad i benderfyniadau gwariant a

wneir yn Lloegr mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig, yn cael eu dyrannu i adlewyrchu ein blaenoriaethau. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yna'n pleidleisio ar ein Cyllideb derfynol yn dilyn proses graffu gan y Pwyllgor Cyllid.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU yn Natganiad y Gwanwyn y bydd Cymru'n derbyn ychydig dros £21m o symiau canlyniadol Barnett yn 2018-19 o ganlyniad i'r £3bn a gyhoeddodd ar gyfer paratoi at Brexit yn ei Chyllideb yn yr hydref. Disgwylir i'r symiau canlyniadol ar gyfer 2019-20 gael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Bontio'r UE, sy'n werth £50m, i helpu i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r UE. Bydd y gronfa'n cael ei datblygu mewn partneriaeth â'n busnesau a'n gwasanaethau cyhoeddus er mwy darparu cymorth arloesol wedi'i dargedu. Cefnogir y gronfa gan £10m o ernes yng Nghyllideb derfynol 2018-19 dros ddwy flynedd, sy'n ychwanegol at y £5m ddyrannwyd ar gyfer paratoi at Brexit yn 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb.

Bydd y cyllid ar ffurf cymysgedd o arian cyfalaf ac arian refeniw a chaiff ei dynnu o nifer o ffrydiau ariannu sydd ar gael inni, gan gynnwys cyfalaf sydd ar gael o ganlyniad i Gyllideb y DU, ein 'siâr' o'r £3bn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yng Nghyllideb y DU ar gyfer paratoi at Brexit, a chan dynnu ar yr hyblygrwydd newydd sydd ar gael inni drwy gronfa wrth gefn Gymru.

Goblygiadau ariannol: Gan adeiladu ar y £5m ychwanegol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddrafft, dyrannwyd £10m o gyllid refeniw ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf yn y Gyllideb derfynol, fel buddsoddiad ychwanegol yng Nghronfa Bontio'r UE.

Carwyn Jones

Prif Weinidog Cymru